Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**DATGANIAD I'R WASG**

## Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

Dywedodd Darren Millar AC Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol heddiw:

"Rydym wedi disgwyl yn hir am yr adroddiad archwilio hwn.

"Rwyf yn bryderus dros ben nad yw Llywodraeth Cymru na Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio wedi gallu dangos i'r Archwilydd Cyffredinol bod pwrs y wlad wedi cael bargen dda o werthu tir ac eiddo, a hynny yng Ngogledd a De Cymru.

"Roedd gan lawer o'r tir dan sylw botensial datblygu sylweddol ar gyfer y dyfodol nad yw'n ymddangos ei fod wedi'i adlewyrchu'n ddigonol yn y prisiau a dalwyd. Pe byddai gwaredu'r safleoedd hyn wedi cael ei reoli mewn ffordd wahanol gallai fod miliynau yn rhagor wedi bod ar gael i'r trethdalwr.

"Mae'r adroddiad yn codi pryderon ynghylch y ffordd y gwnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu CBCA a'r trefniadau gwael ar gyfer goruchwylio ei gwaith.

"Mae yna hefyd gwestiynau difrifol i'w gofyn ynglŷn ag ansawdd y cyngor proffesiynol a roddwyd i Fwrdd CBCA a'r ffordd y cafodd gwrthdaro buddiannau eu rheoli gan Fwrdd CBCA.

"Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried yr adroddiad yn fanwl pan fyddwn yn ailddechrau ar ein busnes ar ôl toriad y Cynulliad dros yr haf, ac rydym yn edrych ymlaen at glywed tystiolaeth lafar bryd hynny."